



Llais y Llan Hydref 2020

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf Tachwedd 26 2021

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk

Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Gorllewin Brechfa yn cyfrannu'n arianol at Lais y Llan Cyflenwyr lleol sy'n barod i ddosbarthu neu archebu a chasglu

Gwelir tipyn o wybodaeth am siopau a chyflenwyr ar safle Facebook – Llanpumsaint ar cylch. Os nad ydych yn defnyddio Facebook dyma rai manylion am siopau a chyflenwyr sy'n barod i helpi'n lleol, drwy dderbyn archebion dros y ffon, dosbarthu neu archebu a chasglu.

Tafarn y Railwe Diodydd y tu allan yn unig - 01267 253643 a Facebook

Becky Llysiau a ffrwythau - yn y pentre' bob dydd Iau - 2 o'r gloch ymlaen.

Adrian Thomas - Bara, danteithion a chacennau. Archebwch Ddydd Llun i dderbyn Dydd Mercher – 07971 740505.

Cig Porfa Perffaith - **Nicky Esgair** 01267 253463

Bacwn a Selsig - **Treftadaeth Myrddin** 07468 453770

Siop Gwalia - Ffonio a chasglu 01267 253249

Chris Thomas Abergwili - Ffonio a chasglu – 01267 238363

Castell Howell – Archebu a chasglu ar y We o Cross Hands 01269 846080

Castell Howell - Talu a chasglu o Gaerfyrddin – gwelwch ein gwefan

Farmyard Nurseries – Yn dosbarthu archebion 01559 363389

Fan Swyddfa Bost - Dydd Mawrth 1.30pm to 3.00pm, Dydd Gwener 1.00pm to 3.00pm.

Ac wrth gwrs os gewch chi slot mae Morrisons, Asda a Tesco yn dosbarthu – pob lwc!



Adfywiwr newydd tu fas y Neuadd

Cadno cyfrwys – gobeithio fod y ffowls yn saff



Rhowch y ffôn i lawr!

Mae troseddwyr sy'n esgus eu bod yn galw o Microsoft, Norton a BT yn ceisio twyllo preswylwyr Dyfed-Powys.

Os fyddwch chi'n derbyn galwad yn dweud bod eich cyfrifiadur wedi'i heintio neu fod ganddo wallau difrifol, neu mae angen diweddar eich meddalwedd wrthfirws, rhowch y ffôn i lawr. Ni ddylai gweithiwr Microsoft, Norton neu BT fyth eich ffonio i ddweud hyn wrthych.

Troseddwyr yw'r galwyr hyn a fydd yn ceisio ennill eich ffydd drwy wneud ichi feddwl bod problem â'ch cyfrifiadur. Os fyddwch chi'n rhoi mynediad iddynt i'ch cyfrifiadur, yr ydych mewn perygl o gael arian wedi ei ddwyn o'ch cyfrif banc a chael eich cyfrifiadur wedi'i gloi.

- Peidiwch sgwrsio â nhw.
- Rhowch y ffôn i lawr.
- Rhwystwrch y rhif ffôn a ddefnyddiwyd i'ch galw.
- Dywedwch wrth eich ffrindiau a'ch cymdogion am y twyll hwn.



Heddlu Police
DYFED-POWYS



Clwstwr diddorol o ffyngau



Y prydferth a'r hyll?



Y Blodyn Brugmasia hanner troedfedd o hyd



LOVE YOUR DOG!

But Please
Keep our roads and verges clean
AND
Pick up after your dog
THEN
Put it in a bin or take it home
Don't hang the bag on a bush!
You know it makes sense!

Neges oddi wrth Gyngor Sir Gar

Mae busnesau yn Sir Gar gyda sefydliadau a grwpiau cymorth cymunedol COVID 19 yn mynd yr ail filltir i gynnig cymorth yr adeg yma. Er mwyn gweld beth sy'n digwydd yn eich ardal ac y ganfod pa gymorth sydd ar gael ewch i wefan y Cyngor Sir.

Gallwch ychwanegu eich busnes i'r rhestr ar covid19community@carmarthenshire.gov.uk [<mailto:covid19community@carmarthenshire.gov.uk>](mailto:covid19community@carmarthenshire.gov.uk) gan ychwanegu enw'r sefydliad, grŵp neu fusnes, disgrifiad byr ac egluro sut i gysylltu e.e. facebook - y We - E-bost - rhif ffôn.

Nodwch hefyd pa ardal rydych yn gweithio yn ddi. Gallwn ychwanegu gwasanaethau gwahanol neu rai newydd er mwyn cydweithio i gefnogi ein cymunedau.

Siop Gymunedol Llanpumsaint - Ymgyngħori â'r Gymuned

Ymgyngħorwyd â'r gymuned I nodi'r angen am siop gumunedol yn y ffyrdd canlynol:
Holiadur (cafwyd 102 o ymatebion)

Digwyddiad Ymgyngħoringyda 36 yn bresenno

Yn rhan o'r broses ymgyngħori, awgrymwyd y safleoedd canlynol yn gartref i'r siop gymunedol:

- Hen Safle'r Siop
- Yr adeilad ger y Dafarn
- Siop Symudol/Dros Dro
- Trawsnewid Adeiladau sydd yno yn barod
- Defnyddio/estyn Adeilad Cymunedol sydd yno yn barod
- Adeiladu o'r Newydd

Y Camau Nesaf...

Yn amlwg, mae yna ddigon o gefnogaeth gan y gymuned i gyflawnhau datblygu siop gymunedol.

Dyma sut y mae'r grŵp llywio yn bwriadu symud ymlaen.

- **Datblygu'r Grŵp Llywio**
- **Dewis y Strwythur Cyfreithiol**
- **Penderfynu'n Derfynol ar Safle Addas**
- **Paratoi Cynllun Busnes**
- **Codi Arian**
- **Datblygu'r Banc o Wirfoddolwyr**

Os hoffech chi gael gwybod mwy neu gymryd rhan, cysylltwch â:

Sharon Frewin sharonfrewin@yahoo.co.uk 07908 668765

www.facebook.com/LlanpumsaintShop

“Pam mae cerdded mor syml â rhad? Dyw Apps ddim

Es am wâc nawr yn y glaw man a glwchi'n stêcs. Lawr y rhiw ac wedyn nol lan i gael fy ngwres Bant a'r got ac yna glwchi to! Ond o'dd ddim ots achos wy'n byw mewn tŷ cynnes, rhoi'r got i sychu a sychu'n hunan. Bu mynd am y wâc yn egniôl ar ddiwrnod diflas - triwch hi rywbryd! Daeth cyfle i mi sylwi o amgylch a gweld i'r onnen yn colli eu dail bron i gyd, y fasarnen yn troi'n hyll ag smotioig a'r derw'n melyn. Cynigais gerdded can milltir yn fis Hydref er mwyn Elusen, felly 'roedd angen arbrofi App cerdded ar y ffon, felly llwythais y teclyn arno.

Wedi cyrraedd adre edrychais i weld pa mor bell yr es i, dim ond dau gilomedr a hanner.

Datgelodd sawl calor i losgais ond 'doedd gennyf ddim diddordeb yn hynny nag yn y llun bach i ddweud faint o lan a lawr es i dros borfa fras. Beth oedd wir angen arnaf oedd gwybod sawl milltir es i yn hytrach na sawl cilomedr? Y peth arall own i ishe oedd cadw manylion y wâc er mwyn cadw cyfri i'r dyfodol, ond allech chi ddim neud na. Yna sylweddolais Mai App rhad oedd hwn - felly nid oedd yn awyddus i fod yn syml ac o gymorth. Gallai eich hala'n grac iawn wrth i chi chwilio am ryw safle. Ond pan dalwch chi am App arall daw pethau'r symlach gyda'r trafferthion oll yn diflannu. Mae'run peth yn wir am Spotify - am ddim ond yn ddigon i'ch hala'n wylt wrth geisio'i gal e i chwarae beth i chi am, nid darn bach o eitem nag albwm llawn chwaeth. Mor bell ac mae cerdded ynddi gallaf weld fy hunan yn troi'n 'nol at fesur map gyda phishyn o gorden ar y map dwy fodfedd a hanner. Gyda cherddoriaeth rwy wedi dychwelid at y C D's. Neu wrando ar yr adar.

Pwrpas y pethau hyn yw ein perswadio i dalu. Ond mae cerdded, a wedes i hyn o'r blan, yn rhad ac am ddim. Gwelaf mwy a mwy o bobl yn canfod y wyrth o gerdded a'i holl fanteision. Mae'n gwneud lles i'r esgyrn, y galon, yr ysgyfaint a'r amenydd hefyd. Gwell lawer i'w cwrdd ag eraill ar yr hewl a chynnal clonc fach o bellter gyda chyfaill neu gymydog nag ymladd a rhyw App dieflig ar y peiriant ffon. Rhaid cyfadde' fod mynd am wâc a chwrdd â siarad ag eraill wedi bod yn feddyginaethau arbennig i mi yn ystod cyfnod y pla diawledig yma sylw wedi dinistrio shwd gymaint.

Ann Pettitt

Cymdeithas Rhandiroedd Llanpumsaint

Chithau'n meddwl am Haf da o dyfiant daeth Awst gwlyb, gwyntog a diflas. Beth bynnag o ymweld a garddwr brwd o gyfaill ar eu randir, gan gadw pellter wrth gwrs, synnais weld i'w flodau a'i lysiau ffynnu mor dda. Cyn i mi ymadael sibrwdodd ei gyfrinach - *Gwely cynnar - codi'n gynnari - gwaith caled a digon o wrtaith*. Yna wrth i fynd awgrymodd roi tail ceffyl ar fy mefus, ond na mha well da fi hufen arnynt.

Ond 'does dim rhaid gweithio'n rhy galed i fwynhau blasu eich ffrwythau a'ch llysiau, a gall droi mas i fod yn hamddenol bleserus. Felly dewch draw i ymuno a ni! Mae'r rhandir ar safle'r hen or saf ochor draw'r hewl i Dafarn y Railwe. Am wybodaeth bellach cysylltwch â Rosie (Cadeirydd) 07950411536 neu Ray (Trysorydd) 253157.

Canolfannau Ailgylchu i agor drwy drefniant yn unig.

Agorodd Cyngor Sir Gar ei phedwar canolfan ailgylchu i breswylwyr y sir yn unig wedi ei logi ymlaen llaw. Gellir llogi ar lein ar drefn yw cynta' i'r felin i falu, hyn er mwyn diogelu'r staff a'r cyhoedd. Caiff unrhyw un ddaw yno heb logi ei droi i ffwrdd.

Ar y cychwyn bydd y slot logi ar agor am wythnos. Bob bore Iau o 8.30 ymlaen bydd modd llogi lle. Adolygir y sefyllfa'n barhaol a bydd unrhyw newid yn cael ei gyflwyno ar wefan y Cyngor, Facebook a Twitter.

Bydd Trostre a Nant-y-caws ar agor bob dydd o'r wythnos ond o ddydd Mercher tan y Sul fydd Hendy Gwyn a Wernddu Rhydamon. Bydd 4,000 o apwyntiadau ar gael bob wythnos rhwng y pedwar canolfan, ac er tegwch i bawb cyfyngir bob unigolyn i un y mis. Hyn oll sy'n berthnasol i Sir Gar, gall Awdurdodau eraill fod yn gweithredu'n wahanol. Oherwydd i'r sefyllfa gael ei adolygu'n barhaol awgrymir y dylid cysylltu'n gyson am y wybodaeth ddiweddaraf. Awgrymir y dylid ymweld â' chanolfan ddim ond os oes gwir angen gwneud hynny oherwydd diogelwch iechyd. Gellir rhoi gwastraff arferol allan i'w gasglu ar yr amseroedd priodol.

Bydd y rheolau cadw pellter yn cael eu dilyn yn llym yn y canolfannau, felly ni all y staff estyn llaw o gymorth wrth ddadlwytho. Felly gwnewch yn siŵr eich bod yn gallu trafod eich llwyth. Caniateir dau berson o'r un tŷ i ddod allan o'r car er mwyn trafod eitemau trwm. Os na chedwir at y rheolau a'r cadw pellter angenrheidiol yna fydd raid i'r cyngor ail ystyried y sefyllfa ac efallai cau unwaith eto. Mae'r rheolau arferol yn parhau h.y. prawf eich bod o'r sir a'r permit i'r cerbyd. Gwelir y wybodaeth hon ar y wefan dan dudalennau biniau ailgylchu a sbwriel.

Clwb Cant Llanpumsaint

Ers y rhifyn diwethaf o Lais y Llan ymunodd y canlynol –

Rhif 95 – Lisa Williams. Rhif 96 – David Icke. Rhif 97 a 98 – K P Bowman-Whiting. Rhif 99 – Roz Evans.

Rhif 100 - Lansia Jones. Rhif 101 a 102 - Owain & Llyr Jones. Rhif 103 - Florrie Rees. Rhif 104 - Ann Davies. Rhif 105 - Dorrien a Mair Thomas Rhif 106 - lyn a Nerys Thomas. Diolch i bawb! Dyma enillwyr y cyfnod o Fawrth i Hydref -

Mawrth £20 - Rhif 20 - Y Clwb Bowlio. £15 - Rhif 37 - Pamela Jones. £10 Rhif 2 - Val Lock

Ebrill £20 Rhif 62 – Dexter Penfold. £15 – Cathy Williams. £10 Rhif 28 – Jonathon Evans.

Mai £20 Rhif 43 – Jill Evans. £15 Rhif 99 – Roz Evans. £10 Rhif 103 – Florrie Rees.

Mehefin £20 Rhif 64 – Mo Jameson. £15 Rhif 98 – K P Bowman-Whiting. £10 Rhif 44 – Gethin Edwards.

Gorffennaf £20 Rhif 45 - Sandy Maher. £15 Rhif 47 - Philip Jones. £10 Rhif 14 - Maria Stedman.

Awst £20 Rhif 50 - Grant Davies. £15 Rhif 102 - Owain & Llyr Jones. £10 Rhif 87 - Bryn Jones.

Medi £20 Rhif 60 – Gordon & Barbara Cable. £15 Rhif 23 – Lyn Henstredge. £10 Rhif 7 – K P Bowman- Whiting.

Hydref £20 Rhif 6 – Edward Davies. £15 Rhif 53 – Dee Tozer. £10 Rhif 10 – Eirian Powell Datgelir enillwyr Tachwedd. Yr un Fawr Nadolig ac Ionawr yn rhifyn Nadolig o'r Llais. Pawb i fyw mewn gobaith! Derrick Lock Trysorydd y Clwb Cant 01267 253524

Bowlio Dan Do Llanpumsaint a Nebo

Atgof yw'r unig chwarae i ni gyd erbyn hyn. Bu'n dri deg wythnos hir ers i ni fod wrthi, ond gallwn ymfalchiö i ni orffen y tymor cwta gyda buddugoliaeth arbennig i ffwrdd erbyn Llandyfaelog ym Mis Mawrth. Gani'r firws fod yma o hyd ansicr i ni pa bryd y cawn fowlio unwaith eto. Gobeithio y daw ein haelodau oll yn ôl pan ddaw hi'n ddiogel i wneud.

Felly dyma rai cwestiynau er mwyn atgoffa ein haelodau o'r rheolau

1 Beth yw enw'r bel felen? -

Jim – James – Jac neu Jill

2 Sawl pêl a ddefnyddir mewn cystadleuaeth Unigol?

4 – 2 – 3 neu 7

3 Beth yw'r Shot?

Y bel bela o'r Jac - Bowliwr wedi rhoi'r gogwydd anghywir - Y bel nesa
at y Jac - Y chwaraewr mwyaf tebygol o gadw dryll yn ei boced

4 Mewn gem Pedwarawd sawl pêl fydd gan bob chwaraewr?

2 – 3 – 4 neu 5

5 Os yn ceisio tynnu beth fydddech yn ceisio gwneud?

Ceisio rhwystro - ysgrifennu'r scor ar garden - bowlio gyda phwysau
Manwl am y Jac - paentio drwy rifau

6 Beth yw enw'r bowliwr sy'n gosod y Jac mewn gemau Parau, Triawd a Phedwarawd?

John - Sgip - Capten neu geffyl blan

7 Lluniwyd pob pel i symud yn archol, beth yw'r enw am hyn?

Llinell - Gogwydd - Maint neu Bwysau

8 Os dywed bowliwr i ch fod yn rhy drwm beth olygir gan hyn?

Wedi bowlion rhy lydan - wedi rhoi gormod o bwysau -- gogwydd
Anghywir - chi wedi bwyta'r holl bastau

9 Mewn gem Triawd yn draddodiadol sawl pel sydd i bob chwaraewr?

3 – 4 – 2 – neu 1

10 Prif nod y gêm bolio yw?

Taro'r Jac -- taro i sgorio -- gorffen mor agos i'r Jac a phosib - Yfed
Eich gwrthwynebydd dan ford.

Felly shwd nethoch chi? Pob un yn gywir? I ffindio mas cerwch i'n safle ar y We
llanpumsaint smbc.org.uk

Am wybothaeth bellach ewch at ein Cadeirydd Derick Lock 01267 253524 neu'r Ysgrifenyddes
Jill Edwards 01267 253474

Scam Arall

Dyma un newydd. Rai wythnosau ‘nol ces alwad ffôn wrth rywun yn honni mae Ditectif oedd e’, a dywedodd fod fy ngŵr wedi ei weld gyda menyw arall. Naill a’i mae e’n gweld ysbrydion neu wedi gweld Nick yn y Nefoedd. Ar ben hynny o’n ni ddim yn briod chwaith! Mewn tipyn o stad dywedais wrtho am beidio bod mor dwp cyn rhoi’r ffon lawr. Wedyn sylweddolais peth da na gafodd wybod fy mod ar ben fy hunan bellach. Ces fy siglo dipyn! Beth ddaw nesa o’r galwadau maleisus ma!

Sandy Mather

Clwb Garddio Bronwydd

Bu’n chwe mis anodd iawn ac mae’n amlwg bellach na fydd gobaith am gyfarfodydd nes y Gwanwyn o leiaf. Tebyg iawn y gwelwn aeaf anghyfleus hefyd felly bu’r Pwyllgor yn trafod ac yn awgrymu’r canlynol

1 Gosod blaen ddyddiad o 16eg o Fawrth i’n cyfarfod cyntaf. Os na ellir defnyddio Neuadd Bronwydd yna cewch neges Ebost.

2 Y bwriad yw cynnig yr union raglen i 2021 a’r un a drefnwyd am 2020, ac mae hon gennych yn barod.

3 Os talwyd aelodaeth am 2020 yna fydd hyn yn ddigonol am 2021, ni fydd angen mwy. Os ydych heb eto dalu yna cewch garden gan Maureen pan ddewch i gyfarfod Mawrth.

4 Bydd yn ofynnol i gyd ymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau cadw pellter neu lendid fydd yn bodoli ar y pryd.

5 Tebyg iawn na chawn drefnu Cinio nac ymweliadau am 2021 ond byddwn yn awyddus i wneud cyn gynted a fydd canllawiau’n caniatáu.

6 Daw un darn o newyddion da beth bynnag o gyfeiriad Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa, £500 at redeg Y Sioe flwyddyn nesaf.

Gobeithio eich bod chi gyd a’ch teuluoedd yn cadw’n heini a bod eich gerddi yn elwa o’r sylw ychwanegol maent wedi cael eleni. Os daw newidiadau i’r hyn adroddwyd uchod byddwn mewn cysylltiad ac yn y cyfamser edrychwn ymlaen at eich gweld ym Mis Mawrth gobeithio. Sue Harte Cadeirydd

Newyddion o Skanda Vale

Symudon ni mewn i fferm Cwmcreigiau Fawr yn 1973. Ers hynny buom yn galw'r dŵr sy'n rhedeg drwy'r cwm yn Yr Afon, ond mae'r mapiau'n awgrymu'n wahanol. Yr enw nawr yw Nant Aeron, enw sy'n gyfarwydd i bob Cymro. Beth am ystyr Aeron? Awgrymodd Google mae cyfeiriad at ffrwyth oedd yma ac mae Nant ffrwyth yr aeron oedd hi . Ond o holi 'mhellach daeth eglurhad mwy cynhyrfus - Duwies Maes y Gad neu Dduwies y Golau. Os gall rhywun gynnig y gwir eglurhad byddem yn falch i glywed - enquiries@skandavale.org

<mailto:enquiries@skandavale.org>

(Mae arbenigwyr enwau llefydd yn gytun i Aeron fod yn hen gyfeiriad at Dduwies mas y gad - ystyr aer yn wreiddiol oedd brwydr. felly yr un tarddiad i'w Nant Aeron ag Aberaeron. Enwau nentydd ac afonydd i'w hynaf i oroesu yn y Gymraeg. - Arwyn)

Gerllaw'r Nant ceir dolydd lle tyfa'r triaglog coch a gold y gors, ond y mwyaf toreithiog yw'r erwain. Ynddy ceir yr un surni a geir yn rhisgl yr ellygen, ac a ddefnyddir yn y bilsen asprin. Dywedir i'r Frenhines Elisabeth y Cyntaf fod mor hoff o arogl yr erwain yw gosod ar lawr yn ei hystafelloedd. Canfuwyd gweddillion o'r planhigion yma gydag olion tri pherson amlosgywd 'nol yn Oes yr Efydd yn Fan Foel, sydd rhyw deg ar hugain milltir i'r dwyrain o Lanpumsaint ar y Mynydd Du.

Tawel yw'r cwm nawr fod sŵn Côr y wawr yr adar wedi taweli. Bellach gyda'u safleoedd yn sicr, ac wedi nythu gyda chymar, daw'r angen i chwilio'n ddyfal am fwyd i'r cywion. Un noson clywodd y Chwaer Gemma sŵn gwichiad anghyffredin yn ardd y llety. Draenog bychan oedd wedi crwydro bant oddi wrth ei fam.

Uwchben ar ochr ddwyreiniol y cwm mae ein maes parcio nesaf at dir y Rhos. Yma mae digonedd o lwydwel y calch a gwahanol redyn. Yn sgil dulliau ffermio cyfoes a draenio a sychu tir prinbau'n aruthrol wnaeth y math yma o dirlun. Bellach dim ond 8% o'r hyn oedd yma'n 1900 sydd ar ôl. Oherwydd hyn rhestrwyd Rhos dan Gynllun Gweithredol Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig. Mae tirwedd ein Rhos yn cynnal poblogaeth o ieir bach yr haf, Britheg y Gors, rhain wedi dirywio 80% ers y 1970degau. Mae yn o hefyd boblogaeth iachus o Drygeirian Brych y Rhos a Carawai. Yr olaf yma ddyfarnwyd yn hoff flodyn Sir Gar mewn cystadleuaeth y 2002, ac mae'n hoff iawn o dir gwlyb ardal y rhos.

Bu yna gyfnod llethol o dwym yn Awst gyda'r bygythiad o derfe. Cysgodd un o'r Chwiorydd a'i ffenest ar agor, i ddihuno i weld Ystlum Lleiaf yn ei hystafell. Y swae ar led yw ei bod yn gwrthod unrhyw fwyd a garleg ynddo ac yn gwrthod gadael ei hystafell yn ystod oriau'r dydd. Odi hyn yn wir?

Ysgol Llanpumsaint

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ar y 22ain o Fis Medi a chafodd aelodau newydd eu penodi. Oherwydd COVID-19 ar cyfyngiadau presenol nid ydym yn gallu cynnal digwyddiadau fel arfer felly rydym yn trefnu digwyddiadau gwahanol I godi arian ond hefyd er mwy codi hwyl yr wyl.

Os ydych yn siopa ar y We gallwch helpi' godi arian i'r Gymdeithas drwy gofrestru yn www.easyfundraising.org.uk/causes/llanpumsaintpta. Os oes 'na rywun yn gallu

Eglwysi Llanpumsaint, Llanllawddog, Celynin Bronwydd a Sant Alban Cwmdauad.

Cofiwch fid canllawiau'r Eglwys yng Nghymru a'r Llywodraeth yn newid yn gyflym. Felly am y wybodaeth ddiweddaraf dilynwch ni ar Facebook, lle dwyn gallu ymateb yn gyflym.

<https://www.facebook.com/llanpumsaintbronwyddand> llanllawddogchurches

Fel y mae pethau heddiw (14/9/20) gallwn ddal i gyd-gyfarfod mewn grwpiau o fwy na 6, ond mae gwisgo gorchudd wyneb nawr yn orfodol. Gallwch ei dynnu er mwyn derbyn y Cymun yn unig os nad ydych wedi eich esgusodi'n swyddogol. Hoffwn eich atgoffa hefyd ên cyfrifoldeb i gadw pawb yn saff mewn gwasanaethau ac unrhyw weithgaredd arall. Golyga hyn gadw pellter o ddwy fedr oddi wrth deuluoedd eraill, wrth gyrraedd, ymadael ac yn y maes parcio. Peidiwch â rhannu eitemau fel pen. Ni ellir casglu eitemau'r Diolchgarwch yn y modd arferol eleni, felly 'rwy'n argymhell i chi wneud rhoddion uniongyrchol i Fanc Bwyd Caerfyrddin.

Ceir y manylion am hyn ar <https://carmarthen.foodbank.org.uk/give-help/donate-food>

A dyma'r cyfarwyddiadau am roddion arian <https://carmarthen.foodbank.org.uk/give-help/donate-money>

Mae gwasanaethau Skype yn parhau - 9 y.b ar Ddydd Mawrth ac am 10 y.b ar y Sul.

Zoom i'r Ieuenciad - Dydd Iau 5.30 i 6.30 i'r oed 10 i 17

Eglwys Llanpumsaint ar agor am weddïau preifat - 10 - 11 Dydd Llun

Gwasanaethau mewn eglwysi ar Suliau am 2 y.p fel a ganlyn. Cofiwch gysylltu â fi er mwyn llogi lle a chofiwch ddod a'ch gorchudd gyda chi.

Sul 4dd Hydref – Sant Alban Cwmdauad

Sul 11eg Hydref – Llanpumsaint

Sul 18fed Hydref - Llanllawddog

Sul 25 ain Hydref Eglwys Awyr Agored – Sant Celynin Bronwydd

Gwasanaeth yn holol tu fas fydd hwn, heb gyfle i fynd mewn i'r Eglwys felly bydd yn hanfodol i wisgo'n addas at y tywydd. Anelir Gwasanaeth y Goedwig at bawb ond efallai gwnaeth apelio'n arbennig at blant a phobl ifanc.

Ni ellir caniatáu mwy na 30 yn gyfan gwbl a bydd yn ofynnol i bawb dros 11oed gadw pellter cymdeithasol. Rhaid i bawb dan 16 fod yng ngofal oedolyn cyfrifol. Datblygiad cyfoes yw Eglwys y Goedwig sy'n adlewyrchiad o hen draddodiad o addoli yn yr awyr agored, ac mae hefyd yn elwa o ymchwil diweddar sy'n cadarnhau'r manteision o ymwneud a natur yn ei chynefin naturiol.

Mae Eglwys y Goedwig yn fwy na gwasanaeth eglwys yn cymerid lle y tu fas, gan ymwneud a'r cread. Nid dyma rywbeth sy'n cymerid lle yn yr awyr agored yn unig y e', ein bwriad yw dysgu, addoli, myfyrio, gweddio ac ymwneud a'r coed a'r wlad. Dewch mewn cysylltiad â mi er mwyn cadw lle. Unwaith y caf syniad pwy sydd yn dod gallaf baratoi ac anelir gweithgaredd yn briodol.

Diolchi bawb am eich amynedd a'ch cefnogaeth ar hyd yr amser.

Y Parch Gaynor i_gaynor@hotmail.com

Brics Codi Arian - A hoffech chi brynu bricsen i roi ar y wal tu fewn i'r Neuadd? Rydyn ni nawr yn derbyn archebion. Mae angen pump archeb arnom ni, cyn i ni fedru prynu'r brics. Pris y brics yw £50 yr un. Am fwy o wybodaeth a ffurflen archebu cysylltwch â Catrin Eldred ar 07772235243.

Curad Calon Llanpumsaint

Dyma'r criw bach fu'n gyfrifol am sefydlu 4 Adfywiwr mewn gwahanol safleoedd yn yr ardal – Tu fas y Neuadd Goffa SA33 6BZ

Tu fas Tafarn y Railwe SA33 6BU

Ar wal Fferm yr Henfryn tua Ffynnonhenri SA33 6LD

Tu fas Festri Capel Nebo. SA33 6HN

Gosodwyd blwch newydd i'r Adfywiwr ger y Neuadd a diolch i Galon Cymru amdano am ddim. Diolch hefyd i Wil am ei osod lan a'i gysylltu â chyflenwad trydan y Neuadd.

Os pery rhywun drawiad ar y galon gore gyd pwy gyntaf iddo gael triniaeth yr Adfywiwr er mwyn goroesi. Bydd pob munud yn dyngedfennol ac mi fydd y Gwasanaeth Ambiwlans yn barod i'ch cyfarwyddo dros y ffon nes bod cymorth ychwanegol yn cyrraedd. Gallai hyn ddod o gyfeiriad y Gwasanaeth Tan sydd hefydl/87 wedi eu hyfforddi i ymateb ac aros yno nes i'r Ambiwlans gyrraedd.

Os nad ydych yn siŵr sut i ddefnyddio'r Adfywiwr gallwch fenthyg y pecyn ymarfer oddi wrtho i, a chyflle felly i'w ddangos i aelodau eraill o'ch teulu. Hyd yma ni ddefnyddiwyd un o'r peiriannau yma yn yr ardal, ond pwya'r pan ddaw galw, felly mae ymarfer ymlaen llaw yn fod i arbed bywyd.

Carolyn Smethurst 01267 253308 info@gwilimill.com

Rhestr Chwarae am Oes – Elusen Cerdd Dementia

Adnoddau newydd a Gwybodaeth yn rhad ac am ddim

'Rwy'n gweithio i Elusen gerdd Chwarae am Oes 9Playlist fôr Life) ac yn gwasanaethu ardal Caerfyrddin. Dros y misoedd diwethaf yma buon yn gweithio mewn ffyrdd dipyn yn wahanol, ond rydym yn dal ati i hyrwyddo ein gwasanaethau rhad o ddiddordeb i'r henoed a Gofalwyr yn ychwanegol at y rhai sy'n diodde' o Ddementia. Nod Chwarae am Oes yw cynnig tipyn o hwyl cadarnhaol i ddioddefwyr dementia sydd wedi diodde'r Cyfnod Cloi. Gall atseiniâu o gerddoriaeth eu gorffennol fod o les iddynt yn emosiynol ac yn feddyliol.

Buom yn cydweithio gyda Chymdeithas Alzheimer, Cyswllt Oed, Cerdd i'r Amenydd, cartrefi gofal, Gofalwyr, perthnasau, a gwirfoddolwyr, er mwyn hybu gwerth Y Rhestr Chwarae.

Gyda'r Gymdeithas Alzheimer buom yn llunio rhestrau personol ar beirianwaith MP3, gan eu hanfon allan at ddioddefwyr yn y gymuned., rhai ohonynt yn gaeth i'w cartrefi oherwydd y Cyfnod Clo. Mae'r gymdeithas honno wedi gwerthfawrogi ein cyfraniad o ddod a phleser i'w cartrefi yn ystod y cyfnod yma.

Os hoffech wybod mwy am y Rhestr Chwarae mae gennym dip yn cynnig amrywiaeth cyfoethog o eitemau er mwyn creu rhestrau personol i unigolion.

<https://www.playlistforlife.org.uk/resources>

Mew Steff Griffiths Cydlynydd Lleol – De orllewin Cymru, 07712273946

steff@playlistforlife.org.uk

Neuadd Goffa Llanpumsaint & Ffynnonhenri Memorial Hall

Ar y foment mae'r Neuadd yn parhau ar gau ac yn methu cynnal digwyddiadau oherwydd sefyllfa covid-19. Fe fydd y pwylgor yn cwrdd yn rhithiol dros yr wythnosau nesaf i drafod ffordd ymlaen wrth ail agor y Neuadd yn y dyfodol. Diolch

Llyfr Tywys Poched i Fynyddoedd y Cambria

Pleser yw rhannu'r wybodaeth ddigidol o'r Llyfr Boched hwn gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae'n cynnwys lleoliadau natur, canolfannau treftadaeth a llwybrau i'w tramgwyddo. Ceir hefyd wybodaeth am ffurfafen dywyll. Cyrhaeddodd copiau ysgrifenedig o'r ganllaw boched ac fe ddosberthir y rhain i'w casglu gan bobl. Os dymunwch gopi rhowch wybod.

Diolch i bawb wnaeth gyfrannu at y cyhoeddiad.

Mae gennym hefyd Canllaw i Ffurafennau Tywyll Mynyddoedd y Cambria - copiau ar gael o hyd.

Dafydd Wyn Morgan Rheolwr Project dyfodol Cambrian Futures.
01974 282255 neu 07748675798 dyfodolcambrianfutures@gmail.com

Baw a budreddi cwn

Mae Clwb Criced Bronwydd a Phwyllgor Neuadd Bronwydd yn bryderus iawn oherwydd y cynnydd mewn baw cwn ar y ddau gae chwarae yno. Rydym yn cydnabod i ran fwyaf o berchnogion fod yn gyfrifol wrth ymarfer eu cwn wrth gerdded ar draws ein caeau chwarae. Yn anffodus mae yna leiafrif nad ydynt yn glanhau lan ar eu hol.

Drwy gyfrwng Llais y Llan felly apeliwn at berchnogion cwn, o le bynnag y dônt, i ddilyn y rheolau a chadw eu cwn ar dennyn wrth gerdded y llwybrau, ac osgoi gadael budreddi. Os ydy ci yn gwneud ei fusnes yna ewch a'r gweddillion gyda chi i'w roi yn y lle priodol. Gofynnwn hefyd i chi beidio â cherdded cwn dros ardaloedd y borfa na'r safle gwyllo criced.

Defnyddir y ddau gae at chwaraeon, y nifer fawr ohonynt yn blant, ac mewn un cornel lleolir ardal chwaraeon plant. Bu cynnydd mawr yn y baw cwn ar y borfa, hyn yn beryglus iawn oherwydd y bacteria, sy'n gallu achosi anhwylder stumog a gwaeth, megis niwed i'r afu. Llawer iawn gwaeth yw Toxocariasis sy'n gallu gwneud rhywun yn ddall. Rhaid cofio fod ar berchnogion gyfrifoldeb cyfreithiol i lanhau lan ar ôl eu cwn mewn safle cyhoeddus. Diolch am ddarllen ein hapêl!

Dorian Taylor a hywel Griffiths - Cadeiryddion Clwb Criced a Phwyllgor Neuadd, Bronwydd.

Gwasanathau Capel Nebo

Am fwy o wybodaeth am yr uchod, gellir cysylltu a Meinir Jones, ysgrifenyddes y Capel ar 253532.

Capel Ffynnonhenri

Os am fanylion pellach cysylltwch a Danny Davies, Trysorydd ar 01267 253418 neu Gwyn Nicholas Ysgrifennydd ar 01267 253686

Caersalem

Mae'r capel wedi ail-agor a byddwn yn cynnal oedfaon os byw ac iach ar y rhan fwya o Suliau. Os byddwch chi eisiau dod, plîs a wnewch chi ffonio fi ymlaen llaw - 253895, Eleri Morris. Diolch.

Arts Care Gofal Celf Brechfa Forest

Mae Arts Care Gofal Celf yn falch iawn i gyhoeddi ein bod wedi derbyn cyllid oddiwrth Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Coedwig Gorllewin Brechfa er mwyn darparu gweithgareddau seiliedig ar gelf i'r bobl sy'n byw yn ardal Coedwig Brechfa dros y 6 – 9 mis nesaf. Bydden ni wir yn hoffi gweld y prosiect yn cael ei arwain gan bobl lleol, felly mae eich barn chi yn hynod bwysig i ni. Os hoffech chi gymryd rhan mewn gweithdai creadigol di-dâl, neu os 'rydych yn artist proffesiynol sy'n byw yng Nghoedwig Brechfa, bydden ni wrth ein boddau yn clywed oddiwrthoch chi.

Bydd un o'n hartisitiaid aml-dalentog sy'n byw yng Nghoedwig Brechfa yn darparu rhai o'r gweithdai, a allai amrywio o waith tecstil i goedwriaeth, neu weithgareddau a ysbrydolwyd gan natur. Mae'n dibynnu ar yr hyn sy'n apelio atoch chi. Mae gennym nifer o artistiaid yn cydweithio gyda ni sy'n gallu cyflenwi pob math o weithdai creadigol, yn amrywio o ysgrifennu creadigol i ddawns neu ioga, drama, cerflunio, gwneud printiau a mwy. Serch hynny, hoffen ni hefyd ymgysylltu ag unrhyw artistiaid proffesiynol lleol sydd am ymuno, a chynnig gweithdai.

'Rydym am weld y prosiect hwn yn gwneud sbloet creadigol ar adeg pan mae COVID-19 yn dal i herio cymunedau. Gallai'r prosiect gynnig mynediad i weithdai arlein, yn ogystal â gweithdai wyneb-i-wyneb, tra'n rhoi'r sylw daladwy i'r mesurau diogelwch a chanllawiau sydd mewn grym ar y pryd. Unwaith eto, hoffen ni wybod beth fyddai'n gweithio orau i chi er mwyn ichi gael mynediad at gyfleoedd.

Byddwn yn trefnu cyfres fer o sesiynau blasu i ddechrau; bydd hyn yn gyfle i roi tro ar sawl ffurf celf gwahanol ac yn gweithredu fel ffordd arall ichi ddweud beth arall hoffech weld. Bydden ni am i unrhyw weithdai yn y dyfodol ddiwallu'r hyn 'rydych chi am wneud, felly helpwch ni i ddarparu'r gweithdai a fydd yn eich ysbrydoli ac yn cefnogi lles.

I'r rhai sy'n darllen ar-lein, I rannu'ch syniadau, cliciwch ar y ddolen isod ac atebwch y cwestiynau, os gwelwch yn dda.

<https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=QI5pBGcsiEiLLctXO9JgSuI8bfB106FHM8k9dbIEGf5UM0FWMEdTVVJNOFRWV0ZXTDZFWkY2TTU1Qi4u>

Os y byddai'n well gyda chi, neu unrhywun o'ch cydnabod, dderbyn copi PDF i'w argraffu, ebostiwch rachel@acgc.co.uk. Neu os 'rydych chi, neu unrhywun o'ch cydnabod, am dderbyn copi caled o'r arolwg drwy'r post, rhowch wybod.

Cyfnod Profi Zoom ar lein

21ain Hydref 2020 - 10 yb - 12– Ysgrifennu Creadigol a Gludwaith

14eg Tachwedd – 10.30 yb – 12.30 – Cardiau Pwytho.

Cyfnod Profi yn yr awyr agored (yn ardal coedwig Brechfa)

29ain Hydref 1.30 yp – Ysgrifennu Creadigol

3dd Tachwedd 2020 - 11 yb- 1.30 yp Celf Sail

Mae pob cyfnod profi yn rhad ac am ddim. Y llefudd yn gyfyngedig felly mae bwcio'n hanfodol.

Cyswllt - [<mailto:rachel@acgc.co.uk>](mailto:rachel@acgc.co.uk) neu adael neges ar 01267 243815.

Pwyllgor Lles ac Adloniant

Yn anffodus bu raid dileu Gorymdaith Sion Corn am eleni yn sgil y cyfyngiadau a'r rheolau yn deillio o'r firws. Diolch Lyn Ifans Ysgrifennydd

Gofal Traed

Dylai cleifion newydd gysylltu a Gary Robinson yn ystod yr wythnos rhwng 6 a 8 y.h. ar 07789 344488 fel y dylai cleifion cyfredol sydd yn dymuno canslo eu hapwynytiadau. (gofynnir am rybudd o leiaf 24 awr, plis).

Hywel Llygod

Un da wrth ei waith o’dd Hywel Llygod, yn gwbod yn iawn shwd a ble i osod gwenwn neu drap. ‘Rodd tipyn o alw amdano yng nghefn gwlad ‘nol tua canol y ganrif ddiwethaf pan welwyd ffermydd yn orlawn o fwyd anifeiliaid. Ond fe ddathblygodd ddawn fwy arbenigol fyf. Bob amser yn barod i ofalu am i fola, daeth yn gamster ar ddewis ac amseru ei ymweliadau pan fyddé’r teulu ar eistedd am fwyd. Bydde rhai’n mwynhau brecwast mowr hwyr wedi gorffen godro’r bore neu eraill yn porthi Te Deg hael. Bydde ambell ginio cynnar tua hanner awr wedi un ar ddeg, eraill wedyn yn amrywio hyd at tua dau. Bydde Te wedyn rywbryd o dri ‘mhlau, gydag ein swyddog yn trefnu ei ymweliadau yn ôl ei chwant. Yn naturiol fyddé cinio mawr hwyr ddim yn mynd gyda gormod o jam a sgons yn gynnari y prynhawn. Gan fod llygod yn bla yn y wlad yr adeg hynny bydde “*Dewch miwn at y ford Hywel ni ar fyta!*” i’w glywed yn ddyddiol.

O dipyn i beth lledaenodd y bola nes neid hi’n anghyffyrrdus i blygu lawr yng nghorneli sguborie i hela llygod. Felly pan ddatth jobyn y War Ag (War Agricultural Committee) o’dd e jyst y peth iddo, oherwydd bydde’n dal i drefnu ymweld â ffermydd fel arolygwyr, i sicrhau eu bod wedi aredig hyn a hyn o erwau i dyfu bwyd yn ôl gorchymyn y Llywodraeth. Dim penlinio poenus mewn corneli tywyll bellach, ond wâc fach i fwylch clawdd, ond y ford fwyd ddewisol heb newid dim. Daw Can boblogaidd y cyfnod gan Bois y Frenni i’n hatgoffa faint a dalwyd i’r ffermwyr am aredig; ie “*Dwy bunt yr erw bois!*” Bu ymestyn y cynllun wedi’r Rhyfel i orffen yn llai na phobloged, yn enwedig gydag amaethwyr gorllewin gwlyb Cymru, lle’r oedd tywydd tyfu llafur yn brin.. I lawr yn nyffryn Tywi hawdd o’dd i Hywel roi pip dros ben iet i gadarnhau fod y tir wedi troi’n goch cyn arwyddo’r tal i’r perchenog. Mewn mannau mwy llethrog rhaid llusgo lan rhiw yn amal, felly dysgodd edrych ar y tir gynta cyn eistedd wrth y ford fwyd.

Dyma darged i Pantglas ar brynhawn dydd Iau, dyna pryd fyddé Mrs Thomas yn coginio ei downyts blasus. O’dd hi ddim gatre, wedi mynd bant da’r Côr rwle, ond ‘roedd Donald wedi bod lawr yr hewl fach i gwrdd â cherbyd Jory, i gasglu’r hanner disen o’r byns mawr jyst mas o’r ffwrn blasus., “*Well i ni fynd i weld y ca nawr cyn Te*” medde’r swyddog.,

“*Na! Ma popeth ar y ford, tecil wedi berwi a byns ffres da fil!*”, Dim angen perswâd pellach wrth i’r arogl heintus gyrraedd ei ffroenau. A’th dwy lawr whap gyda’r menyn cartre’n eu tododi yn ei geg; rhaid mynd am un arall. Pigo’n ofalus ar un yn unig wnâi’r forwyn wrwaidd newydd gan ddabo slagen fawr o fenyn ar yr un nesa. O’dd hyd yn oed Hywel yn llawn erbyn hyn, ond ildiodd i’r cynnig “*Sdim pwynt cadw un!*” Cynted iddo’i gwthio lawr gan ddwbwl dagu, cododd ein ffermwyr ar ei draed.

“*Cystal i ni fynd lan achos sdim help da fi odro heno a bydd rhaid cwrdd â’r bys pan ddaw’r Côr ‘nol!*” O glos y ffarm mae ’na godiad tir o bron dri chan llath cyn cyrraedd y caeau cnydau, yno fyddé’r tir aredig, ac yno oedd Hywel fod gyrraedd. Aethon drwy’r iet i Gae War Tŷ gyda’i gilydd, cyn i Donald ddechre camu’n gynt ac yn raddol creu pellter rhwng y dda. Tuchan oedd yr ail wrth i’r byns ddechrau gwasgu. Stopo am anal, “*Jiw ma golygfa bert o fan hyn! Ife Rhydargaeau chi’n gallu gweld draw fan na!*” dim ymateb o’r cynta’ wrth i’r pellter rhyngddynt gynyddu. *Ble ma’r ca ma fi fod weld?*”

“*Reit lan top! Ma sbel da ni fynd to!*”. Cyn cyrraedd y clawdd nesa’ aeth yn dipyn mwy serth, wrth i’r cynta’ gamu’n gynt, “*Y Ca pella yw e’ ar bwys yr hen hewl Rufeinig!*”. Nawr mas o anal yn llwyr, suddodd calon ein swyddog o gofio ei fod wedi sbio arno ar y map yn y Swyddfa.

“*Gwedwch wrth i odi popeth yn iawn lan na? “Odyn odyn! Popeth yn iawn!”*

“*Grondwch ma! Ma tambach o hast arna ‘i! Os arwyddai’ pidwch gweud gair wrth neb fod ni heb fod lan!*”, a thynnu’r ffurflen swyddogol mas o’i boced frest.

Wrth i’r cerbyd adael y clos dan wyneb gwelw Hywel chwifiodd Donald ei ffarwel yn llon. Yna trodd at Prince y ci defed, “*Diolch byth am fyns Jory!*”. Bydde rhaid mynd at y Gof yn weddol gloi i weld a ‘odd e’ wedi riparo’r arad.



Village Voice October 2020

Copy Date for next Edition 26th November 2020

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange
www.llanpumsaint.org.uk email info@llanpumsaint.org.uk. Please send items to
info@llanpumsaint.org.uk or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY
Brechfa Forest West Wind Farm Community Fund provides some funding for Village Voice

Local traders doing deliveries or order and collect

Lots of information about local shops and help in the village on the Facebook site, Llanpumsaint ar cylch. However, if you don't use Facebook, here are details of some traders that will be in the village, will deliver phone orders or operate a phone or click and collect service:

Railway Inn –Outside drinks only, Tuesday – Sunday see Facebook, or phone 01267 253643

Becky Veg and fruit in the village from 2.00pm Thursday afternoons – 07969 047045

Pasture Perfect Meat Nicky Esgair 07866 311740

Sausages and Bacon **Myrddin Heritage** 07468 453770

Baker Adrian Thomas for bread savouries cakes - order Monday for delivery Wednesdays 07971 740505

Gwalia Stores Phone and collect 01267 253249

Chris Thomas at Abergwili Phone and Collect 01267 238363

Castell Howell on-line click and collect from Crosshands 01269 846080

Castell Howell Shop at Carmarthen Cash & Carry – see website for details

Farmyard Nurseries Delivering orders – 01559 363389

Post Office Van Tuesdy 13.30 – 15.00 and Friday 13.00 - 15.00

And of course, if you can get a slot, Morrisons, Asda and Tesco will deliver – the difficult is finding a slot!!!!



New box outside the Memorial Hall



Cheeky fox – hope he is not after my chickens



Just Hang Up!

Criminals pretending to be from Microsoft, Norton and BT are trying to scam Dyfed-Powys residents.

If you receive a call saying your computer is infected or has serious errors, or your anti-virus needs updating, just hang up the phone. No genuine employee from Microsoft, Norton Anti-Virus or BT should ever phone you to tell you this.

These callers are criminals who will try gain your trust by making you think your computer has a problem. If you allow them access to your computer, you are at risk of having money taken from your bank account and your computer locked.

- Don't engage in conversation with them.
- Put the phone down.
- Block the number they called from.
- Tell your friends and neighbours about this scam.



Heddlu Police

DYFED-POWYS



Interesting cluster of Fungi



Beauty and the beast?



Brugmansia flower, 6 inches long



LOVE YOUR DOG!

But Please
Keep our roads and verges clean
AND
Pick up after your dog
THEN
Put it in a bin or take it home
Don't hang the bag on a bush!
You know it makes sense!

From Carmarthenshire County Council

Carmarthenshire businesses and support groups are going the extra mile along with Covid-19 community support groups to help and support their local communities.

To see what is going on in our area and to find out what support is available log on to the [Carmarthenshire County Council website](#)

If you want to add your business/group to this list email covid19community@carmarthenshire.gov.uk with the business/group name, brief description of what they are doing, how people can get in touch e.g facebook/web link, email and/or phone number and the area that you are working in. We can add new areas and types of service, if they aren't already listed in the drop-down menus.

By working together we can help support our communities.

Llanpumsaint Heartbeat

The 4 defibrillators in the Llanpumsaint area are at the following locations:

Outside the Village Hall SA33 6BZ

Outside the Railway Inn SA33 6BU

On the wall outside Henfryn on way to Ffynnon Henry SA33 6LD

Outside the Vestry at Nebo SA33 6HN

Note: You do not need a code to access the defibrillator

We have replaced the box protecting the defibrillator at the Hall with many thanks to Welsh Hearts who provided it free of charge. Many thanks to Will Dyfed Alarms for fitting the box and connecting to the electricity in the hall.

If anyone has a cardiac arrest the sooner CPR is given and defib used, the more likely the patient will survive. Every minute is important, and the ambulance service will help you do this on the phone until the first responder arrives. This may be the local fire service who have been trained to do this. They will be there until the ambulance arrives.

If you are not sure about using a defibrillator, you can borrow a training pack from me to show you and the family how to give CPR and use the defibrillator. Although none of the village defibrillators have been used, you never know when you might need to help, so just going through the process with a training pack may help you save a life. Carolyn Smethurst 01267253308, info@gwilimill.com

Llanpumsaint Allotment Association

Just when you think that it's going to be a good Summer growing season - along comes a very dull, wet, and windy August!

However when I recently visited a keen gardener friend and accompanied him around his plot (maintaining a safe distance), I was really surprised to see how well and luxuriant his flowers and vegetables were growing.

Having spent an informative afternoon with him he whispered to me how he achieved this -

“Early to bed, early to rise, Work like hell and fertilise.”

He then finally suggested, as I was leaving, horse manure on my strawberries.

I'm not doing that again though. I'm going back to whipped cream!

You don't have to work all hours to enjoy the fruits (and veg) of an allotment -it can in fact be quite a relaxing and rewarding pastime. So why not come and join us. The allotments are located in the old station yard opposite the Railway Inn. For any information about the Association contact Rosie (Chair) Tel: 07950411536, or Ray (Treasurer) Tel:253157.

LLANPUMSAINT WELFARE AND RECREATION ASSOCIATION

Llanpumsaint park will remain open. However, everyone using the park is requested to read the Government Guidelines on the posters at each entrance. **NB. DOGS ARE NOT ALLOWED IN THE PARK**

Regrettably, this year's Santa Parade has been cancelled due to the recent rules and restrictions as a result of the Covid-19 pandemic. Thank you, Lyn Evans (secretary)

Another Scam!

'This is a first - a couple of weeks ago I had a phone call from someone purporting to be a Private Investigator, telling me my husband had been seen with another woman! Either he's clairvoyant or he's a ghost and he's seen Nick in heaven 😱 On top of that, we weren't married!

